



Yn Gryno Mai 2022



Cynnwys

Tudalen	Adran
3	Y Prosiect
4	Y Gweithgarwch
4	Mapio
5	Ymgysylltu â'r Gymuned
6	Y Llwybr Dychmygu
7	Addysg
7	Casgliad
8	Brandio 'Colwyn'
9	Celfyddyd Gyhoeddus
9	Llwybr Cerfluniau
10	Gwaith Celf Tanffordd
11	State of Independents
12	Colwyn Creadigol a Digidol
13	Datblygu Capasiti Diwylliannol
13	Cymorth Trydydd Sector
13	Creu Conwy
14	Yr hyn y gwnaethom ei ddysgu

Delweddau clawr blaen (o'r brig i'r gwaelod):

1. Gweithdy graffiti yn Prom Xtra
2. Dychmygwch Recordio Rali Sgwteri Llwybr
3. Delwedd archif o Ffordd yr Orsaf
gyda delweddau sgrin werdd o Launch
4. Gweithdy animeiddio ym Mae Colwyn
Marchnad Artisan, © Hedd F Williams



Awyrlun Bae Colwyn © Mel Hughes

Y Prosiect

Roedd Dychmygu Bae Colwyn yn Gynllun Lle Gwych Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, a arweiniwyd gan Grŵp Llywio traws-sector. Cafwyd cyllid partneriaeth ychwanegol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Tref Bae Colwyn ac Ardal Gwella Busnes Colwyn (AGB) ond mae bellach wedi dod i ben. Mae'r crynodeb hwn yn cynnig cipolwg o'r gweithgarwch a gyflwynwyd a rhai gwersi allweddol o'r prosiect. Mae adroddiad gwerthuso llawn ar gael hefyd.

Ble?

Roedd ardal y prosiect yn cynnwys Hen Golwyn, Bae Colwyn, Llandrillo-yn-Rhos a Mochdre.

Pryd?

Ionawr 2019 - Mawrth 2022 (wedi'i ymestyn o fis Mawrth 2021 oherwydd COVID-19).

Beth?

Gweledigaeth y prosiect oedd gosod *"Diwylliant, creadigrwydd a chymuned wrth galon Bae Colwyn"* drwy:

- Fapio, cofnodi a dathlu asedau ac adnoddau diwylliant a threftadaeth presennol.
- Datblygu a chryfhau cysylltiadau diwylliant a threftadaeth gyda sefydliadau'r trydydd sector
- Ysbrydoli a chysylltu pobl drwy raglen atyniadol o weithgareddau a digwyddiadau treftadaeth a diwylliant
- Cefnogi diwydiannau creadigol drwy gynnig hyfforddiant, uwchsgilio, rhwydweithiau, cefnogaeth cyfoedion a chyfleoedd darparu.
- Datblygu strategaeth diwylliant a threftadaeth a'i wreiddio o fewn sefydliadau, cynlluniau a strategaethau lleol.

Y Gweithgarwch

Mapio

Cofnodwyd 136 o asedau ac adnoddau diwylliannol a threftadaeth ar draws ardal y prosiect fel rhan o ymarfer mapio cychwynnol.

Etifeddiaeth

Helpodd y gwaith mapio i arwain gweithgareddau'r prosiect. Bydd yn cael ei chynnal fel dogfen fyw gan Grŵp Treftadaeth Bae Colwyn a bydd ar gael fel adnodd ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

Rhaglen Gymunedol - 580 o sesiynau gweithdy a digwyddiadau wedi'u cyflwyno, a gofnododd dros 5500 o gyfranogion.

O'r sampl o 168 o bobl a gwblhaodd ffurflenni gwerthuso prosiect:

- nododd 80% fod ansawdd y digwyddiad / gweithgarwch yn 'dda' neu'n 'dda iawn'
- cytunodd 79% eu bod wedi dysgu mwy am dreftadaeth leol o ganlyniad
- cytunodd 65% fod cymryd rhan yn y gweithgarwch wedi gwneud treftadaeth leol yn fwy perthnasol iddynt
- dywedodd 92% eu bod wedi cael amser da!
- dywedodd 80% eu bod yn hoffi byw lle maen nhw
- roedd 58% yn teimlo'n fwy gobeithiol am ddyfodol Bae Colwyn ers iddynt gymryd rhan



Ymgysylltu â'r Gymuned

Rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2019, cynhaliwyd 47 o ddigwyddiadau a gweithdai i godi ymwybyddiaeth am y prosiect, archwilio naws am le ac ymgysylltu â phobl wrth lunio'r cynllun gweithgarwch. Cymerodd dros 900 o bobl ran mewn gweithgarwch a oedd yn cynnwys: graffiti yn Prom a Mwy, theatr gymunedol a modelu VR.

“Roedd yn hyfryd cael cyfarfod â phobl o'r gymuned a 'buzz' go iawn yn y lle”

“Mae apêl traws-genhedlaeth heddiw wedi bod yn ysbrydoledig. Da iawn i'r trefnwyr”

“Diolch yn fawr – fyddai'r math yma o ddigwyddiad ddim yn digwydd lle roedden ni'n arfer byw”

Y rhai a ddaeth i'r Digwyddiad Lansio

Etifeddiaeth

Roedd y gweithgarwch hwn yn gynnar yn y prosiect yn llywio ac yn llunio'r cynllun gweithgarwch ac yn sicrhau elfen wedi'i chydgynhyrchu i gyflwyno'r prosiect.



Dychmygwch ddelweddau'r Llwybr

Y Llwybr Dychmygu

Cynhyrchwyd ap realiti estynedig gan Tape Community Music and Film a Reality Boffins. Mae'r ap yn cynnwys 155 o leoliadau yn seiliedig ar adnoddau Llwybr treftadaeth lleol. Gweithiodd 22 o hwyluswyr creadigol lleol ar y prosiect a chymerodd tîm cynhyrchu cymunedol o dros 400 o bobl ran mewn 290 o weithdai cymunedol. Cynhyrchwyd dros 52 o ddarnau o gynnwys cymunedol wedi'i ysbrydoli gan dreftadaeth (gan gynnwys ffilmiau, ysgrifennu creadigol, animeiddio a seinweddau). Yn dilyn y lansiad ym mis Medi 2021, recordiwyd dros 900 o lawrlwythiadau o'r ap.

“Rwy’n falch o fod wedi bod yn rhan o’r prosiect hwn. Fe wnes i gyfarfod pobl na fuaswn wedi eu cyfarfod fel arall a rhoddodd rhywbeth adeiladol i mi ganolbwyntio arno, a rhywfaint o ‘normalrwydd’ yn ystod y pandemig. Bydd yr ap a’r cynnwys sydd wedi’u creu yn ased mawr i’r ardal am flynyddoedd i ddod.”

Aelod o'r Llwybr Dychmygu, Tîm Cynhyrchu Cymunedol

Etifeddiaeth

Mae ail gam datblygu'r ap bellach ar y gweill ar ffurf prosiect sgiliau a chyflogadwyedd. Mae'r ap Llwybr Dychmygu a'r cynnwys creadigol yn asedau cymunedol a byddant yn cael eu cynnal am o leiaf 5 mlynedd. Gellir ei lawrlwytho drwy: www.llwybrdychmygu.com.

Addysg

Cyflwynwyd mwy na 35 o sesiynau mewn lleoliadau addysg, gan ymgysylltu â dros 1300 o ddisgyblion a myfyrwyr. Crëwyd pecynnau ffilm a gweithgareddau Cyfnod Allweddol 2, sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cymreig newydd, a chasgliadau Amgueddfa ac Archifau Conwy, gan Pigtown Theatre a'u treialu'n llwyddiannus gydag ysgolion.



Delwedd lonydd a gymerwyd o'r adnodd ffilm addysg

“ Mae'r adnoddau ysgrifenedig a'r fideos wedi gwneud argraff fawr arna' i a byddwn bendant yn defnyddio'r ddau yn yr ysgol. Rydyn ni'n mynd i gynnwys astudiaeth hanes lleol ar gyfer pob grŵp blwyddyn drwy'r Ysgol Baratoi ac mae'r adnoddau hyn yn wych.”

Dirprwy Bennaeth, Rydal Penrhos

Etifeddiaeth

Mae'r dolenni ffilm a'r pecynnau gweithgareddau y gellir eu lawrlwytho ar gael. Byddant yn cefnogi ysgolion gydag adnoddau deniadol sy'n galluogi i blant ddysgu am eu hanes lleol.

Casgliad

Crëwyd 3 chasgliad newydd o eitemau i'w cyffwrdd a 60 o becynnau gweithgareddau amlsynhwyrdd ar thema'r 60au, 70au a'r 80au. Yn ogystal, crëwyd adnodd ffilm i gefnogi a hyrwyddo atgofion creadigol i bobl sy'n byw gyda dementia cynnar. Bu'r artistiaid Ticky Lowe, Lisa Heledd Jones a Penny Alexander yn cydweithio a bu 129 o bobl yn rhan o'r gwaith datblygu a threialu'r adnoddau.

“ Wrth i ni ddod allan o gyfyngiadau llym Covid-19, elwodd staff a thrigolion o fynediad i'r gweithgareddau, adnoddau a sesiynau gyda'r hwyluswyr creadigol. Yn ogystal, cynigiodd y prosiect gyfle datblygu i'n Cydlynnydd Gweithgareddau weithio ochr yn ochr â'r artist a gomisiynwyd.”

Rheolwr Gofal Cartref

Etifeddiaeth

Gellir benthycu'r adnoddau a grëwyd yn rhad ac am ddim gan wasanaeth Llyfrgell Conwy. Bydd y ffilm yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r adnoddau ac yn hyrwyddo manteision hel atgofion creadigol.



Gosod arddangosfa ffenestr brandio yng Nghanolfan Bayview, Bae Colwyn

Brandio 'Colwyn'

Bu dros 300 o bobl yn rhan o'r gwaith datblygu'r brand ar gyfer Bae Colwyn, a grëwyd gan Asiantaeth View Creative. Mae 15 o arwyddion 'croeso' sy'n cynnwys y brand wedi'u gosod ar bwyntiau'r porth ac mae siop wag yng nghanol y dref wedi'i chadw i hyrwyddo'r brand gydag arddangosfa ffenestr drawiadol.

Etifeddiaeth

Mae'r brand wedi'i fabwysiadu gan nifer o grwpiau a sefydliadau; mae'r canllawiau a'r asedau ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan Cyngor Tref Bae Colwyn. Bydd yr arwyddion 'Croeso' yno am o leiaf 5 mlynedd.

Celfyddyd Gyhoeddus

Llwybr Cerfluniau

Mewn partneriaeth â Colwyn yn ei Blodau a chyda chyllid ychwanegol gan Gwynt y Môr, comisiynwyd Theatr Byd Bychan i greu llwybr cerfluniau Bae Colwyn. Mae 7 gosodiad gyda themâu lleol ac amgylcheddol, ynghyd â 30 o wylanod sy'n cysylltu'r llwybr. Bu 191 o bobl yn rhan o waith datblygu'r cysyniad, gweithdai celf amgylcheddol a sesiynau glanhau cymunedol a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect.

" Mae cynnwys artistiaid a myfyrwyr ifanc mewn prosiectau fel hyn yn bwysig iawn. Mae gallu gweld fy nghelf yn cael ei thrawsnewid a'i rhoi yn y byd go iawn yn gwireddu breuddwyd."

Myfyriwr gradd sylfaen Celf,
Coleg Llandrillo

" Rwyf wedi mwynhau cymryd rhan yn fawr, mae'r cerfluniau'n anhygoel ac mae'r ffordd y mae pobl leol wedi ymgysylltu wedi bod yn wych."

Un a ddaeth i'r Gweithdy



Enghreifftiau o'r cerfluniau a osodwyd ar draws Bae Colwyn

Etifeddiaeth

Hyd oes y llwybr cerfluniau yw o leiaf 3 blynedd ac mae gosodiadau ychwanegol yn cael eu hystyried gan bwyllgor Colwyn yn ei Blodau. Mae'r Fulfran, Hufen lâ Octopws a gosodiadau eraill wedi dod yn dirnodau lleol ac yn fannau cyfarfod i'r gymuned.



Y gwaith celf wrth y danffordd



Gwaith Celf Tanffordd

Dros gyfnod o 6 gweithdy creadigol, bu'r artist Wendy Couling yn gweithio gyda mwy na 45 o bobl i ddatblygu cysyniadau ar thema treftadaeth i gysylltu'r llwybr cerddwyr rhwng canol y dref a'r promenâd. Ysbrydolodd y cysyniadau hyn waith celf ar raddfa fawr Andy (Dime One) Birch ar danffordd Network Rail.

"Fe wnes i wir fwynhau cymryd rhan yn y gweithdai cysyniad gyda Wendy, lle gwnaethom ddefnyddio technegau nad oeddwn wedi eu defnyddio o'r blaen. Diddorol oedd dysgu ychydig mwy am hanes yr ardal a gweld y casgliad o hen luniau a ddefnyddiwyd gennym fel ysbrydoliaeth. Gorau oll i mi oedd cael y cyfle i weithio gydag Andy a bod yn ymarferol yn creu'r gwaith celf ar y waliau yn y danffordd."

Un a ddaeth i'r Gweithdy

Etifeddiaeth

Bydd y gwaith celf yn aros yno am o leiaf 3 blynedd, gan wella golwg y danffordd a chynyddu ymwybyddiaeth o dreftadaeth leol.

Cyflwynodd elfen busnes a diwydiant creadigol y prosiect raglen o dros 30 o weithdai, sesiynau a digwyddiadau rhwydweithio, gan gofnodi dros 400 yn bresennol.



Cysgodfa prom yn Llandrillo-yn-Rhos, sy'n rhan o arddangosfa State of Independents. © Kev Curtis

State of Independents

Gosodwyd arddangosfa bortreadau awyr agored ar raddfa fawr yn cynnwys 24 o fusnesau lleol mewn 6 lloches prom rhwng Hen Golwyn a Llandrillo-yn-Rhos. Wedi'i datblygu gydag Oriel Colwyn fel rhan o Wyl Ffotograffiaeth Northern Eye 2019, mae'r arddangosfa'n arddangos y masnachwyr annibynnol unigryw yn yr ardal. Roedd nodau'r prosiect yn ddeublyg: 1) creu celf gyhoeddus hynod effeithiol a 2) cefnogi busnesau annibynnol ac annog ymwelwyr i ganol y dref.

Etifeddiaeth

Mae busnesau annibynnol lleol yn fwy amlwg. Mae cam 2 y prosiect ar y gweill ac mae prosiect i osod oriel awyr agored bwrpasol ar hyd arfordir Conwy yn cael ei archwilio.

Colwyn Creadigol a Digidol

Cynigiwyd rhaglen o weithgarwch hyfforddi a datblygu ar gyfer y diwydiannau creadigol mewn ymateb i ddadansoddiad o anghenion a gynhaliwyd gydag 80 o bobl leol greadigol. Roedd y rhaglen yn cynnwys digwyddiadau PechaKucha (math o adrodd straeon gweledol lle mae cyflwynydd yn dangos 20 sleid am 20 eiliad yr un) a gweithio gyda Ffiwsar i gefnogi digwyddiadau sgwrs diwylliannol 'Beth Nesaf'. Yn ystod cyfyngiadau COVID-19, bu cydweithrediad â Menter Môn yn cynnig cyfleoedd rhwydweithio a datblygu ar-lein. Roedd y gweithgarwch ychwanegol yn cynnwys:

- Datblygu cynllun peilot bwrsariaeth mewn ymateb i ystod eang o anghenion hyfforddi a datblygu pwrpasol y sector creadigol. Dyfarnwyd cyfanswm o £13,468.47 i 12 ymgeisydd. Roedd y gweithgarwch a gefnogwyd yn cynnwys: profi dronau, recordio sain a hyfforddiant peirianeg, uwchsgilio yn y cyfryngau cymdeithasol a meddalwedd graffeg symudiad.

“ Mae'r cyfleoedd a gefais drwy'r fwrsariaeth wedi rhoi hwb i fy hyder. Nid yn unig rydw i wedi dysgu sgiliau newydd, rydw i hefyd wedi sylweddoli cryfder fy sgiliau presennol ac wedi cael fy nghalonogi bod menter leol yn barod i fuddsoddi ynof fi a fy musnes.”

Un a gafodd Fwrsariaeth Colwyn Creadigol a Digidol

- M-SParc 'ar daith' – Sefydlwyd canolbwynt diwydiant creadigol a 'gofod gwneuthurwr' mewn uned wag ar stryd fawr. Er mwyn cefnogi cynaliadwyedd y gofod, mabwysiadwyd dull partneriaeth. Rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2021, roedd y gweithgarwch yn cynnwys:
 - Defnyddiodd 357 o bobl y gofod cydweithio
 - Daeth 17 o bobl i'r sesiynau 'Hyfforddi'r Hyfforddwr'
 - 13 digwyddiad busnes
 - 26 sesiwn Addysg STEAM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Celfyddydau a Mathemateg)
 - 24 sesiwn gofod gwneuthurwyr

“ Mae safle M-SParc on Tour ym Mae Colwyn wedi rhoi mynediad i mi at weithle cynhyrchiol sydd hefyd yn cynnig cymorth TG ar y safle.”

M-SParc on Tour @ Colwyn Bay User

Etifeddiaeth

Mae cyfleoedd a grëwyd drwy'r prosiect wedi cynyddu capasiti ac wedi annog cydweithio rhwng pobl greadigol a sefydliadau lleol. Mae cyllid bellach yn cael ei glustnodi ar gyfer cynllun peilot y cynllun bwrsariaeth ledled y sir. Gyda chefnogaeth Gyda'n Gilydd dros Fae Colwyn, mae grŵp Facebook 'Colwyn Creadigol' wedi'i greu. Mae gan y fforwm rhwydweithio hwn dros 180 o aelodau. Mae'r cynllun peilot M-SParc on Tour cychwynnol wedi'i ymestyn ac mae'r potensial ar gyfer canolbwynt tymor hwy i'r diwydiant creadigol yn cael ei archwilio.

Datblygu Capasiti Diwylliannol

Cymorth Trydydd Sector

- Mae Fforwm Treftadaeth Conwy gyfan wedi cael ei gefnogi i gyfarfod bob chwarter drwy gydol y prosiect mewn partneriaeth â'r Grŵp Gweithredu Lleol Gwledig.
- Cynigiwyd cymorth a chyfleoedd datblygu i'r Trydydd Sector a grwpiau cymunedol sydd wedi cynnwys:
 - Presenoldeb yng nghynhadledd Gorffennol Digidol 2020
 - Cefnogaeth ymgynghorol gyda llywodraethu, cynlluniau busnes, ceisiadau ariannu ac adolygu dehongliad treftadaeth ar draws yr ardal
 - Cefnogaeth gyda chyflwyno sesiynau cymunedol chwarterol 'Ddoe a Heddiw'

Etifeddiaeth

Mae Fforwm Treftadaeth Conwy yn cael ei adolygu fel rhan o ddatblygiad y model llywodraethu ar gyfer Creu Conwy. Mae capasiti 3ydd sector wedi cynyddu; er enghraifft, mae Grŵp Treftadaeth Bae Colwyn yn archwilio i gynnig sesiynau cymunedol 'Ddoe a Heddiw' cymysg yn bersonol ac ar-lein. Yn ogystal, mae prosiect posibl i adnewyddu ac uwchraddio arwyddion dehongli ar draws yr ardal yn cael ei ystyried.

Creu Conwy

Mae strategaeth ddiwylliant ar gyfer Conwy wedi ei datblygu; cafodd y broses ei llywio gan sgysiau gyda dros 200 o unigolion a sefydliadau. Wedi'i seilio ar **bobl, rhaglenni a lle** a'r weledigaeth bod **'Diwylliant yn tanio'r fflam ar gyfer twf economaidd, lles a chysylltiadau'**, mae'r strategaeth yn darparu fframwaith a chynllun gweithredu 5 mlynedd sy'n cael eu hategu gan egwyddorion **anturus, chwareus a chysylltiedig** i ysbrydoli a chefnogi gweithgarwch diwylliannol hygyrch ar draws y sir. .

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth ar lefel leol, mae Abergele, Bae Colwyn, Conwy, Llandudno a Llanrwst wedi'u nodi fel 'Padiu Lansio' diwylliannol ar gyfer y sir ehangach. Mae'r dull hwn wedi'i arloesi ym Mae Colwyn gyda datblygiad cynghrair creadigol Tîm Tref sy'n cynnwys gweledigaeth a chynllun gweithredu ar y cyd.

Etifeddiaeth

Mae Creu Conwy wedi gwreiddio diwylliant fel sbardun allweddol ar gyfer twf economaidd a lles yng Nghonwy. Cynrychiolir sawl aelod o Grŵp Llywio Dychmygu Bae Colwyn ar Dîm newydd Tref Colwyn; byddant yn parhau i arwain ar adfywiad diwylliannol a gweithgarwch creu lleoedd yn yr ardal. Mae dysgu'n cael ei rannu i lywio'r dull gweithredu mewn ardaloedd eraill o amgylch y sir.

Yr hyn y gwnaethom ei ddysgu

Lle y bo'n bosibl, cafodd etifeddiaeth ei wreiddio yng nghyflwyniad y prosiect. Yn ogystal â'r allbynnau diriaethol a'r asedau creadigol sydd wedi'u creu, mae yna etifeddiaeth o ddysgu a chydweithio. Mae cyfanswm o dros 20 o sefydliadau partner wedi cyfrannu at gyflawni'r prosiect. Mae crynodeb o'r gwersi allweddol o'r prosiect yn cynnwys:

- Roedd y cymorth prosiect pwrpasol a gynigiwyd gan rôl y Cydgysylltydd Rhaglenni yn hanfodol ar gyfer maint y gweithgarwch a'r ddarpariaeth.
- Roedd sgiliau a dylanwad cyfunol y Grŵp Llywio yn allweddol ond roedd rhai bylchau (yn enwedig o ran cynrychiolaeth busnes ar ôl i'r AGB ddod i ben) yn effeithio ar y ddarpariaeth.
- Mae gwir gyd-ddylunio cymunedol yn cymryd amser ac mae'n anodd ei gyflawni o fewn amserlenni prosiect byr.
- Roedd addasu darpariaeth oherwydd y pandemig yn tynnu sylw at bwysigrwydd hyblygrwydd. Roedd pethau cadarnhaol i'w gweld o'r ddarpariaeth ar-lein ond gwelwyd eisiau'r cysylltiadau organig a digymell sy'n digwydd wyneb yn wyneb.
- Roedd penodi gwerthuswr yn gynnar yn y prosiect yn hanfodol i ddatblygu fframwaith, gan sicrhau ffocws ar y dibenion cymeradwy, yn ogystal â bodloni gofynion y gwerthusiad rhaglen.
- Mae codi ymwybyddiaeth ac annog diwylliant o greu lleoedd ar draws yr holl wasanaethau a sectorau yn allweddol i alluogi darpariaeth.
- Pennwyd maes y prosiect gan ofynion ariannwr cyfatebol. Yn y dyfodol byddai mwy o ymgynghori'n cael ei argymhell i ddiffinio ardal brosiect yn unol â nodweddion a rennir ac ymdeimlad o le.
- Mae cyfathrebu effeithiol yn allweddol ar gyfer prosiectau creu lleoedd, ond mae amcanion eang a budd-ddeiliaid lluosog yn cyflwyno her. Dylid cynnwys mewnbwn arbenigol ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.
- Dylid gwerthfawrogi pwysigrwydd ystyried etifeddiaeth o'r cychwyn cyntaf a'i wreiddio yn y ddarpariaeth.